

Cyfres y DU a'r UE: Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

Yr amgylchedd, yr hinsawdd ac ynni

Mai 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
ymchwil.senedd.cymru

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6472**

E-bost: **Sara.Moran2@senedd.cymru**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

Tanysgrifiwch: **[Diweddariadau mewn amser real](#) | [Diweddariadau wythnosol a misol](#)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cyfres y DU a'r UE: Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu

Yr amgylchedd, yr hinsawdd ac ynni

Mai 2022

Golygydd: Sara Moran



Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gosod y telerau ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE yn dilyn ymadawriad y DU â'r UE. Mae'r gyfres hon yn crynhoi rhannau allweddol o'r cytundeb a'r hyn y maent yn ei olygu i Gymru.

Ymadawodd y DU â'r UE yn ffurfiol ar 31 Rhagfyr 2019 a dechreuwyd ar gyfnod pontio tra bod telerau ei pherthynas â'r UE yn y dyfodol yn cael eu trafod.

Ar 24 Rhagfyr 2020, cyhoeddodd y DU a'r UE eu bod wedi dod i gytundeb yn y **Cytundeb Masnach a Chydweithredu** ochr yn ochr â nifer o gytundebau a datganiadau ar y cyd eraill.

Daeth y cytundeb i rym dros dro o 1 Ionawr 2021, wrth aros am gadarnhad y DU a'r UE. Daeth i rym yn llawn ar 1 Mai 2021.

Mae'r Cytundeb yn dilyn y **Cytundeb Ymadael**, a oedd yn pennu'r telerau ar gyfer ymadawriad y DU â'r UE. Mae'r ddau gytundeb yn parhau mewn grym.

Mae'r DU a'r UE wedi cytuno y bydd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn llywodraethu cytundebau yn y dyfodol rhwng:

- y DU a'r UE;
- y DU a'r UE a 27 o Aelod-wladwriaethau'r UE; a
- chytundebau dwyochrog rhwng y DU ac Euratom

oni ddarperir fel arall yn y cytundebau eu hunain. Gelwir y cytundebau hyn yn 'gytundebau atodol' yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, ac maent yn rhan o'r fframwaith cyffredinol fel rhan annatod o'r cysylltiadau dwyochrog rhwng y DU a'r UE.

Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Beth yw goblygiadau hyn i Gymru?	2
Deunydd darllen ychwanegol	2
3. Trefniadau gwneud penderfyniadau rhwng y DU a'r UE	3
Ble mae penderfyniadau ynghylch yr amgylchedd, yr hinsawdd ac ynni rhwng y DU a'r UE yn cael eu gwneud?.....	3
4. Rhaglith	5
5. Y sail ar gyfer cydweithredu rhwng y DU a'r UE	6
Y sail ar gyfer cydweithredu: y frwydr yn erbyn newid hinsawdd (Erthygl 764).....	6
Y sail ar gyfer cydweithredu: cydweithredu byd-eang ar faterion o ddiddordeb a rennir yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol (Erthygl 770).....	6
Elfennau hanfodol (Erthyglau 771-773)	7
Torri rhwymedigaethau	7
Mesurau diogelu ac ail-gydbwysu.....	8
6. Masnach	9
Yr hawl i reoleiddio	9

Cydweithrediad ym maes ynni	9
Amcanion (Erthygl 299)	10
Egwyddorion (Erthygl 302)	10
Ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni (Erthygl 319).....	10
Cydweithredu i ddatblygu safonau rhyngwladol (Erthygl 323).....	11
Sefyllfa Gydradd.....	11
Beth mae'n ei gwmpasu? (Erthygl 390).....	11
Peidio â gwaethygu (Erthygl 391)	12
Prisio carbon (Erthygl 392)	13
Egwyddorion yr amgylchedd a'r hinsawdd (Erthygl 393).....	13
Niwtraliaeth hinsawdd ar draws yr economi gyfan erbyn 2050 (Erthygl 355)	14
Cymorthdaliadau ynni a'r amgylchedd (Erthyglau 363-375).....	14
Cytundebau amgylchedd amlochrog rhyngwladol (Erthygl 400).....	15
Gorfodi (Erthygl 394-395).....	15
Anghydfodau (Erthygl 396)	16
Mesurau ail-gydbwysu (Erthygl 411).....	16
Masnach a datblygu cynaliadwy	17

1. Cyflwyniad

Mae'r DU a'r UE wedi cytuno ar delerau eu perthynas newydd yn y Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn cynnwys nifer o ymrwymadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd, yr hinsawdd ac ynni, ac maent wedi eu crynhoi yn y canllaw hwn.

Mae'r canllaw yn dangos sut y mae elfennau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu sy'n ymwneud â'r amgylchedd, yr hinsawdd ac ynni:

- yn ymwneud â datganoli;
- yn cysylltu â phrosesau gwneud penderfyniadau newydd y DU a'r UE;
- yn cael eu cyflwyno fel blaenoriaethau yn Rhaglith y Cytundeb Masnach a Chydweithredu;
- yn ffurfio'r sail ar gyfer cydweithredu rhwng y DU a'r UE ac yn ffurfio 'elfennau hanfodol' o'r Cytundeb hwn a chytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol;
- yn cael eu hymgorffori yn narpariaethau masnach y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, gan gynnwys yr hawl i reoleiddio, cydweithredu ym maes ynni, sefyllfa gydradd a sut mae'r Cytundeb yn rhoi ystyriaeth i egwyddor datblygu cynaliadwy.

2. Beth yw goblygiadau hyn i Gymru?

Mae llawer o'r meysydd a drafodir yn y canllaw hwn wedi eu datganoli i Gymru pan ddechreuodd datganoli yn 1999. Bryd hynny, roedd y DU yn rhan o'r UE ac mae'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth amgylcheddol y DU yn deillio o gyfraith yr UE. Nawr bod cyfnod pontio Brexit wedi dod i ben, os yw'n dymuno gall y DU wyro oddi wrth gyfraith amgylchedd sy'n deillio o'r UE.

Rhaid i'r DU barhau i fodloni ei rhwymedigaethau rhyngwladol, gan gynnwys cytundebau rhwng y DU a'r UE a chytuniadau eraill, megis Cytundeb Paris. Rhaid i'r llywodraethau a'r deddfwrfeydd datganoledig gydymffurfio â'r rhwymedigaethau a wneir gan Lywodraeth y DU a bod yn gyfrifol am eu gweithredu mewn meysydd datganoledig.

Mae hyn yn golygu mai Llywodraeth Cymru a'r Senedd sy'n gyfrifol am weithredu'r rhannau sylweddol o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a drafodir yn y canllaw hwn, a chydymffurfio â'r rhannau hynny. Bydd y cyfrifoldebau hyn yn fframio polisi a deddfwriaeth yn y dyfodol ym maes yr amgylchedd, yr hinsawdd ac ynni yng Nghymru.

Deunydd darllen ychwanegol

Mae Ymchwil y Senedd wedi llunio sawl canllaw sy'n esbonio trefniadau'r DU a Chymru ar ôl Brexit yn y meysydd a drafodir yma:

- Mae'r **erthygl hon** yn olrhain sut mae amgylchedd Cymru wedi newid yn ystod 20 mlynedd o ddatganoli, gan gynnwys cerrig milltir allweddol o ran deddfwriaeth a pholisi;
- Mae'r canllaw hwn ar **drefniadau llywodraethu amgylcheddol ar ôl Brexit** yn esbonio system yr UE a beth mae Brexit yn ei olygu i Gymru a'r DU;
- Mae'r **erthygl hon** yn esbonio sut mae datganoli yn gweithio i sicrhau bod Cymru yn cydymffurfio â rhwymedigaethau rhyngwladol;
- Mae'r **canllaw hwn** yn cyflwyno materion amgylcheddol pwysig i'r Senedd hon, megis newid hinsawdd ac aer glân i Gymru; ac
- Mae'r ffeithlun hwn yn dangos y **cyfrifoldebau Gweinidogion Cymru** wrth weithredu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r Cytundeb Ymadael, gan gynnwys y Gweinidog Newid Hinsawdd.

3. Trefniadau gwneud penderfyniadau rhwng y DU a'r UE

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn sefydlu rhwydwaith cymhleth o fforymau newydd rhwng y DU a'r UE, a nodir mewn ffeithlun ar y dudalen nesaf. Mae ein canllaw i **fframwaith sefydliadol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu** yn cynnwys rhagor o fanylion am bwerau a rôl pob fforwm.

Gall Llywodraeth Cymru fynychu rhai cyfarfodydd fel sylwedydd. Mae erthyglau Ymchwil y Senedd yn rhoi diweddariadau rheolaidd ynghylch **sut y caiff Cymru ei chynrychioli** mewn trafodaethau rhwng y DU a'r UE a **chyfarfodydd trac**.

Ble mae penderfyniadau ynghylch yr amgylchedd, yr hinsawdd ac ynni rhwng y DU a'r UE yn cael eu gwneud?

Gall trafodaethau a phenderfyniadau ar ddarpariaethau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu sy'n ymwneud â'r amgylchedd, yr hinsawdd ac ynni ddigwydd mewn sawl fforwm, fel a ganlyn:

Y Cyngor Partneriaeth

Y Cyngor Partneriaeth yw'r prif gorff goruchwyllo. Yma, mae dirprwyaethau o'r DU a'r UE yn trafod gweithrediad y cytundeb, gan gynnwys ei **sail ar gyfer cydweithredu** a'r **elfennau hanfodol** a ddisgrifir yn adran 5 o'r canllaw hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn mynd i gyfarfodydd y Cyngor Partneriaeth fel sylwedydd.

Pwyllgorau Arbenigol

Y Pwyllgor Arbenigol ar **Ynni** yw'r pwyllgor arweiniol ar gyfer y darpariaethau ynni, a grynhoir yn adran 6 o'r canllaw hwn. Bu un o swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol yn **nau gyfarfod cyntaf** y Pwyllgor hwn, ym mis Gorffennaf 2021 a mis Mawrth 2022.


Pwyllgorau Masnach

Mae Pwyllgor Masnach Arbenigol yn arwain ar y darpariaethau **sefyllfa gydradd**, sy'n cynnwys yr elfennau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'r hinsawdd a ddisgrifir yn adran 6 o'r canllaw hwn. Roedd un o swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol yng **ngyfarfod cyntaf** y Pwyllgor hwn ym mis Hydref 2021.

Gellir trosglwyddo materion i'r Pwyllgor Partneriaeth Masnach, sy'n goruchwyllo

Pwyllgorau Masnach Arbenigol. Nid yw'r sawl sy'n bresennol wedi eu rhestru yng **nghofnodion ei gyfarfod cyntaf**, a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2021.

Y Cytundeb Masnach a Chydweithredu: fframwaith sefydliadol



4. Rhaglith

Beth yw rhaglith?

Mae cytundebau yn aml yn dechrau gyda rhaglith sy'n cyflwyno eu cynnwys. Mae'n rhoi syniad da o'r hyn sy'n bwysig i'r partïon a'r hyn y gellir ei ddisgwyl mewn manylder yn ddiweddarach yn y cytundeb.

Mae'r elfen o gydweithredu ym maes yr amgylchedd, yr hinsawdd ac ynni yn rhan o Raglith y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, fel a ganlyn:

1. Mae'r **frwydr yn erbyn newid hinsawdd yn 'elfen hanfodol'** o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a chytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.¹ Torri elfen hanfodol yw'r ffordd gyflymaf o derfynu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu neu unrhyw gytundebau dilynol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, o fewn 30 diwrnod.
2. Mae'r DU a'r UE yn **cydnabod ymreolaeth a hawl ei gilydd i reoleiddio**. Mae'r DU a'r UE yn cytuno bod gan bob un yr ymreolaeth a'r hawl i reoleiddio yn eu tiriogaethau i gyflawni amcanion polisi cyhoeddus gan 'ymdrechu i wella' lefelau eu mesurau amddiffyn. Rhestrir yr amgylchedd, gan gynnwys newid hinsawdd, fel enghraifft.
3. Mae'r DU a'r UE yn **cydnabod yr angen am bartneriaeth economaidd sy'n seiliedig ar sefyllfa gydradd** ar gyfer cystadleuaeth deg ac agored mewn modd sy'n gydnaws ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i gynnal lefelau eu mesurau amddiffyn ym meysydd yr amgylchedd a'r frwydr yn erbyn newid hinsawdd.
4. Mae'r DU a'r UE yn cydnabod manteision masnach a buddsoddi mewn ynni a deunyddiau crai.
5. Maent hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi cyflenwadau **ynni cost-ffeithiol, glân a diogel ynghyd â diogelu'r cyflenwadau ynni** i'r UE a'r DU.

¹ Mae Erthygl 771 yn nodi bod y canlynol yn elfennau hanfodol o'r Cytundeb: Democratiaeth, rheolaeth y gyfraith a hawliau dynol, y frwydr yn erbyn newid hinsawdd a brwydro yn erbyn toeth o arfau distryw mawr.

5. Y sail ar gyfer cydweithredu rhwng y DU a'r UE

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gosod y sail ar gyfer cydweithredu rhwng y DU a'r UE yn Erthyglau 763-770. Mae dwy sail sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r amgylchedd a'r hinsawdd:

1. Y frwydr yn erbyn newid hinsawdd (Erthygl 764); a
2. Chydweithrediad byd-eang ar faterion o fuddiannau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol a rennir (Erthygl 770).

Rhoddir rhagor o wybodaeth am y rhain isod:

Y sail ar gyfer cydweithredu: y frwydr yn erbyn newid hinsawdd (Erthygl 764)

Yn Erthygl 764, mae'r DU a'r UE yn datgan eu bod yn ystyried newid hinsawdd yn fygythiad dirfodol i ddynoliaeth ac yn ailadrodd eu hymrwymiad i gryfhau'r ymateb byd-eang i'r bygythiad hwn.

Maent yn cytuno i:

- barchu **Cytundeb Paris** a'r broses a sefydlwyd gan Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd (UNFCCC) ac ymatal rhag gweithredu neu ddiffyg gweithredu a fyddai'n mynd yn groes i amcan a diben Cytundeb Paris yn sylweddol. Fel yr eglurir yn y canllaw hwn, gallai hyn arwain at derfynu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a chytundebau eraill rhwng y DU a'r UE, yn gyfan gwbl neu'n rhannol; ac
- eirioli'r frwydr yn erbyn newid hinsawdd mewn fforymau rhyngwladol, gan gynnwys drwy ymgysylltu â gwledydd a rhanbarthau eraill i gynyddu lefel eu huchelgais i leihau allyriadau tŷ gwydr.

Y sail ar gyfer cydweithredu: cydweithredu byd-eang ar faterion o ddiddordeb a rennir yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol (Erthygl 770)

Yn Erthygl 770, mae'r DU a'r UE yn cydnabod pwysigrwydd cydweithredu ar lefel byd-eang i fynd i'r afael â materion o ddiddordeb a rennir yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol. Maent yn cytuno i hyrwyddo atebion

amlochrog i broblemau cyffredin, lle bo hynny er budd iddynt.

Maent yn cytuno i:

- ymdrechu i gydweithredu ar faterion byd-eang presennol a materion sy'n dod i'r amlwg ac sydd o ddiddordeb cyffredin megis heddwch a diogelwch, newid hinsawdd, datblygu cynaliadwy, llygredd trawsffiniol, diogelu'r amgylchedd, digideiddio, iechyd y cyhoedd a diogelu defnyddwyr, trethiant, sefydlogrwydd ariannol, masnach rydd a theg, a buddsoddi.

I wneud hyn, byddant yn:

- ymdrechu i gynnal deialog gyson ac effeithiol a chydgyssylltu eu safleoedd mewn sefydliadau a fforymau amlochrog y maent yn cymryd rhan ynddynt, megis y Cenhedloedd Unedig, y Grŵp o Saith (G-7) a'r Grŵp o Ugain (G-20), y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF), Banc y Byd a Sefydliad Masnach y Byd (WTO).

Elfennau hanfodol (Erthyglau 771-773)

Mae Erthygl 771 o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn dweud y dylid ystyried rhannau o'r Cytundeb hwnnw a chytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol yn 'elfennau hanfodol'. Mae hyn yn cynnwys y 'frwydr yn erbyn newid hinsawdd' (Erthygl 764).

Mae gan elfennau hanfodol statws uwch yn y Cytundeb oherwydd gall torri amodau arwain at derfynu'r Cytundeb yn gyfan gwbl. Mae'r adran hon yn disgrifio sut mae hyn yn gweithio.

Torri rhwymedigaethau

Torri elfen hanfodol yw'r ffordd gyflymaf o derfynu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu neu gytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, yn gyfan gwbl neu'n rhannol, o fewn 30 diwrnod (Erthygl 772).

Mae Erthygl 772 yn datgan bod gweithred neu fethiant sy'n mynd yn groes i amcan a diben Cytundeb Paris yn cael ei ystyried bob amser fel achos o dorri'r Cytundeb.

Mesurau diogelu ac ail-gydbwyso

Mae Erthygl 773 yn caniatáu i'r DU neu'r UE gymryd mesurau diogelu yn unochrog os ydynt yn ystyried bod methiant difrifol a sylweddol wedi bod gan y llall i gyflawni ei rwymedigaethau sy'n elfennau hanfodol.

Ni chaniateir mesurau diogelu ond pan fydd methiant o'r fath wedi achosi:

anawsterau economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol difrifol o natur sectoraidd neu ranbarthol, gan gynnwys mewn perthynas â gweithgareddau pysgota a'u cymunedau dibynnol.

Gall y parti arall ymateb gyda mesurau ail-gydbwyso i unioni anghydbwysedd a achosir gan fesurau diogelu.

At hynny, gellir cymhwyso darpariaethau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu ynghylch mesurau diogelu ac ail-gydbwyso i gytundebau rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol.

6. Masnach

Mae trefniadau masnach y Cytundeb Masnach a Chydweithredu i'w gweld ym Mhennawd Un, Rhan Dau o'r cytundeb. Mae'r DU a'r UE yn gwneud sawl ymrwymiad i gydweithredu ym maes yr amgylchedd, yr hinsawdd ac ynni, a grynhoir yn yr adran hon.

Yr hawl i reoleiddio

Mae'r DU a'r UE yn ailddatgan eu hawl i reoleiddio yn eu tiriogaethau er mwyn cyflawni amcanion polisi cyhoeddus dilys, megis ar gyfer yr amgylchedd, gan gynnwys newid hinsawdd. Ceir darpariaethau sy'n ymwneud â'r hawl i reoleiddio mewn perthynas â:

- Masnach mewn gwasanaethau a buddsoddiad (Erthygl 123);
- Masnach ddigidol (Erthygl 198); ac
- Arfer rheoleiddio da, gan gynnwys diffinio a rheoleiddio lefelau diogelwch (Erthygl 340). Mae Erthygl 340 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol na fydd mesurau rheoliadol yn rhwystr cudd i fasnach.

Cydweithrediad ym maes ynni

Gwnaeth y DU a'r UE nifer o ymrwymadau yn ymwneud ag ynni yn darpariaethau masnach y Cytundeb Masnach a Chydweithredu, sydd i'w gweld yn Nheiti VIII o Bennawd Un yn Rhan Dau.

Mae teitl VIII yn cwmpasu:

- Masnach a buddsoddiad rhwng y DU a'r UE mewn ynni a deunyddiau crai a sicrwydd cyflenwad;
- trydan a nwy;
- ynni diogel a chynaliadwy; a
- nwyddau ynni a deunyddiau crai.

Mae teitl VIII yn gymwys tan 30 Mehefin 2026 ond gellir ei ymestyn tan 31 Mawrth 2027 a hyd at 31 Mawrth ym mhob blwyddyn ddilynol.

Mae cyfeiriadau penodol at yr amgylchedd, yr hinsawdd ac ynni wedi'u crynhoi isod.

Amcanion (Erthygl 299)

Amcanion Teitl VIII yw:

1. hwyluso masnach rhwng y DU a'r UE a buddsoddi mewn ynni a deunyddiau crai; a
2. chefnogi sicrwydd cyflenwad a chynaliadwyedd amgylcheddol, yn arbennig wrth gyfrannu at y frwydr yn erbyn newid hinsawdd yn yr ardaloedd hynny.

Egwyddorion (Erthygl 302)

Mae egwyddorion Teitl VIII yn nodi bod y DU a'r UE ill dau yn cadw'r hawl i fabwysiadu, cynnal a gorfodi mesurau sy'n angenrheidiol i ddilyn amcanion polisi cyhoeddus dilys, e.e. amcanion sy'n ymwneud â'r amgylchedd, gan gynnwys y frwydr yn erbyn newid hinsawdd.

Ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni (Erthygl 319)

Yn Erthygl 319, mae'r DU a'r UE yn cytuno i hybu effeithlonrwydd ynni a'r ynni a ddefnyddir o ffynonellau adnewyddadwy.

Maent yn ailddatgan eu cynlluniau a'u targedau presennol ar gyfer defnyddio ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy a chytunwyd ar ddyletswydd i roi gwybod i'w gilydd am y rhain.

Ar gyfer y DU, mae hyn yn cyfeirio at:

- ei huchelgais o ran y gyfran o ynni sy'n deillio o ffynonellau adnewyddadwy yn y defnydd terfynol gros o ynni yn 2030 fel y nodir yn ei **Chynllun Cenedlaethol ar Ynni a'r Hinsawdd**; ac
- ei huchelgais ar gyfer y lefel absoliwt o ddefnydd ynni sylfaenol a therfynol yn 2030 fel y nodir yn ei Chynllun Cenedlaethol ar Ynni a'r Hinsawdd.

Ar gyfer yr UE, mae hyn yn cyfeirio at:

- ei tharged o ran y gyfran o ddefnydd ynni terfynol gros sy'n deillio o ffynonellau ynni adnewyddadwy yn 2030, fel y nodir yng **Nghyfarwyddeb (yr UE) 2018/2001 Senedd Ewrop a'r Cyngor**; ac
- ei thargedau effeithlonrwydd ynni ar gyfer 2030, fel y nodir yng **Nghyfarwyddeb 2012/27/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor**.

Mae erthyglau eraill yn rhoi gwybodaeth benodol am sut y bydd y DU a'r UE yn

cydweithredu ym maes cyflenwadau ynni. Er enghraifft:

- cymorth ar y cyd ar gyfer ynni adnewyddadwy, gan gynnwys y defnydd o **fioldanwyddau, biohyllfau a biomas**, fel y nodir yn Erthygl 320;
- cydweithrediad wrth ddatblygu **ynni adnewyddadwy ar y môr**, gan gynnwys yn rhanbarth Moroedd y Gogledd, fel y nodir yn Erthygl 321; a
- cydweithrediad ym maes **risg a diogelwch ar y môr** fel y nodir yn Erthygl 322, gan gynnwys cynnal lefelau uchel o ddiogelwch a diogelu'r amgylchedd ar gyfer pob gweithrediad olew a nwy ar y môr.

Cydweithredu i ddatblygu safonau rhyngwladol (Erthygl 323)

Mae'r DU a'r UE yn cytuno y bydd rheoleiddwyr a chyrff yn eu tiriogaethau yn cydweithredu i hwyluso datblygiad safonau rhyngwladol mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy, gyda'r bwriad o gyfrannu at bolisi cynaliadwy ar gyfer ynni a'r hinsawdd.

Sefyllfa Gydradd

Eglurir y sefyllfa gydradd yn fanylach mewn **canllaw arall** yn y gyfres hon.

Cyn diwedd cyfnod pontio Brexit, yr un oedd rheolau'r DU a'r UE gan mwyaf. Ers i'r DU adael yr UE, gall eu rheolau ar gyfer pob math o bethau amrywio neu aros yr un fath.

Mae'r DU a'r UE am 'sicrhau sefyllfa gydradd' rhyngddynt ar gyfer masnach a buddsoddiad er mwyn cadw'r gystadleuaeth rhyngddynt yn agored ac yn deg.

Ar gyfer y system newydd hon, mae'r DU a'r UE wedi cytuno i ddefnyddio cyfuniad o fecanweithiau, gan gynnwys rheolau penodol ar gyfer yr amgylchedd a'r hinsawdd.

Ategir hyn gan ymrwymiad i weithredu mewn modd sy'n ffafriol i egwyddor datblygu cynaliadwy.

Beth mae'n ei gwmpasu? (Erthygl 390)

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn diffinio lefelau diogelu'r amgylchedd a'r hinsawdd, fel a ganlyn.

Ystyr '**lefelau o ddiogelwch amgylcheddol**' yw'r lefelau o fesurau diogelu sydd â'r pwrpas o warchod yr amgylchedd, gan gynnwys atal perygl i fywyd neu iechyd

pobl rhag effeithiau amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys yn y meysydd canlynol:

- Allyriadau diwydiannol;
- Allyriadau aer ac ansawdd aer;
- Cadwraeth natur a bioamrywiaeth;
- Rheoli gwastraff;
- Diogelu a chadw'r amgylchedd dyfrol;
- Diogelu a chadw'r amgylchedd morol;
- Atal, lleihau a roi stop ar risgiau i iechyd pobl neu'r amgylchedd yn sgil cynhyrchu, defnyddio, rhyddhau neu waredu sylweddau cemegol; a
- Rheoli effeithiau cynhyrchu amaethyddol neu gynhyrchu bwyd ar yr amgylchedd, yn enwedig drwy ddefnyddio cynnyrch gwrthfotigau a dadhalogi.

Ystyr **'lefel diogelwch yr hinsawdd'** yw lefel y mesurau diogelu mewn perthynas ag allyriadau a gwaredu nwyon tŷ gwydr a gweithio'n raddol ar roi stop ar ddefnyddio sylweddau sy'n niweidio'r osôn. Ar gyfer nwyon tŷ gwydr, mae hyn yn golygu:

- Ar gyfer yr UE, targed 2030 o 40% ar draws yr economi, gan gynnwys ei system ar gyfer prisio carbon; ac
- Ar gyfer y DU, ei chyfran ar draws yr economi o darged 2030 yr UE, gan gynnwys ei system ar gyfer prisio carbon.

Peidio â gwaethgu (Erthygl 391)

Er eu bod yn gallu gosod eu blaenoriaethau, eu polisiau a'u cyfreithiau eu hunain yn y meysydd hyn, mae'r DU a'r UE wedi cytuno ar ddyletswydd i beidio â gwaethgu safonau'r amgylchedd a newid hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys unrhyw dargedau sydd wedi'u cynnwys yn eu cyfreithiau domestig, hyd yn oed os yw'r targed yn anelu at ddyddiad yn y dyfodol.

Maent hefyd yn ymrwymo i ymdrechu i gynyddu eu lefelau diogelu'r amgylchedd a'r hinsawdd yn y meysydd a restrir uchod.

Mae hyn yn golygu bod y DU a'r UE yn ymrwymo i beidio â lleihau neu wanhau lefelau'r mesurau diogelu sydd ar waith ar ddiwedd y cyfnod pontio (ar 31 Rhagfyr 2020) mewn modd sy'n effeithio ar fasnach neu fuddsoddiad rhyngddynt.

Mae hyn yn cynnwys methu â gorfodi eu cyfreithiau a'u safonau yn effeithiol, ond wedi dweud hynny mae'r DU a'r UE wedi cytuno y gellir hepgor y ddyletswydd hon

i roi blaenoriaeth i orfodi cyfreithiau eraill ym maes yr amgylchedd a'r hinsawdd sy'n flaenoriaeth uwch.

Mae gan y Comisiwn Ewropeaidd a chorff goruchwylio'r DU ddyletswydd i gyfarfod yn rheolaidd ac i gydweithredu ar fonitro a gorfodi cyfraith ym maes yr amgylchedd a'r hinsawdd i'r graddau y mae'n ymwneud â pheidio â gwaethygu safonau.

Prisio carbon (Erthygl 392)

O 1 Ionawr 2021, roedd yn ofynnol i'r DU a'r UE fod â system o brisio carbon ar waith i ymdrin ag allyriadau nwyon tŷ gwyr yn sgil cynhyrchu trydan, cynhyrchu gwres, diwydiannau a hedfanaeth.

Rhoddir mwy o amser i ymgorffori prisio carbon ym maes hedfanaeth. Rhaid ei gynnwys erbyn 1 Ionawr 2023, os nad yw eisoes wedi ei gynnwys. Bydd system yr UE yn cwmpasu hediadau i'r DU o'r **Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)** (sef yr UE ynghyd â Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein).

Rhaid i'r DU a'r UE gynnal eu systemau cyhyd â'u bod yn arf effeithiol yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd.

Mae dyletswydd wedi'i chynnwys ar y DU a'r UE i gydweithredu ar brisio carbon, gan gynnwys rheidrwydd i "roi ystyriaeth ddifrifol" i gysylltu eu systemau yn y dyfodol.

Egwyddorion yr amgylchedd a'r hinsawdd (Erthygl 393)

Mae'r DU a'r UE ill dau yn ymrwmo i barchu egwyddorion amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Rhestrir rhai enghreifftiau yn y rhan hon o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu (mae mwy wedi'u cynnwys yn ddiweddarach yn y canllaw hwn), megis **Datganiad Rio 1992, yr UNFCC**, a'r **Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol**.

Mae Erthygl 393 yn nodi, yn benodol, y dylid parchu'r pum egwyddor hyn:

1. Dylid integreiddio mesurau diogelu'r amgylchedd wrth lunio polisiau;
2. Egwyddor gweithredu ataliol;
3. Dull gweithredu rhagofalus;
4. Dylai niwed amgylcheddol gael ei unioni yn y ffynhonnell; ac
5. Egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu

Mae'r DU a'r UE hefyd yn ailddatgan eu hymrwymiaidau i weithdrefnau presennol ar gyfer gwerthuso'r effaith amgylcheddol debygol, gan gynnwys drwy asesiadau effaith amgylcheddol ac asesiadau amgylcheddol strategol. Mae enghreifftiau o weithdrefnau penodol, gan gynnwys y rhai y gofynnir i'r cyhoedd gyfrannu atynt, hefyd wedi'u nodi.

Niwtraliaeth hinsawdd ar draws yr economi gyfan erbyn 2050 (Erthygl 355)

Mae'r ddwy ochr yn ailddatgan eu huchelgais i gyflawni niwtraliaeth hinsawdd ar draws yr economi gyfan erbyn 2050.

Cymorthdaliadau ynni a'r amgylchedd (Erthyglau 363-375)

Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gosod dyletswydd ar y DU a'r UE i sefydlu a chynnal system effeithiol o reoli cymorthdaliadau.

Mae rheoli cymorthdaliadau yn rhan o'r **sefyllfa gydradd rhwng y DU a'r UE.**

Mae'r Cytundeb yn cynnwys gwahanol fathau o gymorthdaliadau – y rhai sydd wedi'u gwahardd, y rhai sydd wedi'u gwahardd ond a ganiateir o dan rai amodau neu'r rhai sydd wedi'u gwahardd ond lle mae eithriadau'n berthnasol. Mae cymorthdaliadau eraill wedi'u heithrio o'i ddarpariaethau, fel y cymorthdaliadau sy'n ymwneud â'r sector clyweledol.

Yn ôl Erthygl 367:

[the UK and EU recognise] the importance of a secure, affordable and sustainable energy system and environmental sustainability, notably in relation to the fight against climate change which represents an existential threat to humanity.

I'r perwyl hwn, gosodir amodau ar gymorthdaliadau sy'n ymwneud ag ynni a'r amgylchedd. Rhaid i'r rhain gael eu hanelu at y buddiolwr, a chymell y buddiolwr i wneud y canlynol:

- darparu system ynni ddiogel, fforddiadwy a chynaliadwy a marchnad ynni gystadleuol sy'n gweithredu'n dda; neu
- gynyddu lefel diogelu'r amgylchedd o gymharu â'r lefel a fyddai'n cael ei chyflawni yn absenoldeb y cymhorthdal.

Yn ogystal, mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol:

- na chaiff y buddiolwr ei esgusodi o'i gyfrifoldebau a'i rwymedigaethau fel llygrwr o dan gyfraith y DU neu'r UE; a
- rhaid i'r amodau a ddisgrifir yn yr adran hon gael eu cymhwyso os yw'r cymorthdaliadau yn effeithio, neu'n gallu effeithio, yn sylweddol ar fasnach neu fuddsoddiad rhwng y partïon. Mae hwn yn gyfeiriad at y gofynion am **sefyllfa gydradd** yn y Cytundeb.
- Os caniateir iawndal i'r sawl sy'n defnyddio llawer o drydan yn achos cynnydd mewn costau trydan o ganlyniad i offerynnau polisi yn ymwneud â'r hinsawdd, bydd yn cael ei gyfyngu i sectorau sydd â risg sylweddol o ddadleoli carbon oherwydd y cynnydd mewn costau.

Cytundebau amgylchedd amlochrog rhyngwladol (Erthygl 400)

Mae darpariaethau'r sefyllfa gydradd yn gosod dyletswyddau helaeth ar y DU a'r UE o ran cytundebau a mentrau amgylcheddol rhyngwladol, gan gynnwys:

- gweithredu, dilyn neu hyrwyddo cytundebau amgylcheddol amlochrog yn effeithiol, gan gynnwys Cytundeb Paris, Confensiwn Cyfraith y Môr a chytundebau Sefydliad Bwyd ac Amaeth y Cenhedloedd Unedig;
- cyfnewid gwybodaeth ynghylch statws cadarnhad a gweithrediad cytundebau amgylcheddol rhyngwladol, trafodaethau parhaus ar gytundebau amlochrog newydd a'u barn ar fynd i gytundebau ychwanegol;
- cydweithio ar agweddau masnach mewn polisiâu a mesurau amgylcheddol, gan gynnwys mewn fforymau amlochrog; ac
- ystyried barn neu fewnbwn gan y cyhoedd a rhanddeiliaid â diddordeb wrth ddiffinio a gweithredu cydweithrediad rhwng y DU a'r UE.

Gorfodi (Erthygl 394-395)

At ddibenion gorfodi, rhaid i'r DU a'r UE sicrhau:

- bod gan eu hawdurdodau domestig rwymedïau digonol ac effeithiol y gellir eu defnyddio, gan gynnwys rhyddhad gwaharddol a sancsiynau; a
- bod personau naturiol a chyfreithiol yn cael dwyn trafodion gweinyddol a barnwrol cenedlaethol, bod y rhain ddim yn afresymol o gostus a'iu bod yn cael eu cynnal mewn modd teg, cydradd a thryloyw.

Mae Erthygl 395 yn gosod dyletswydd ar y DU a'r UE i sicrhau bod eu cyrff goruchwyllo yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cydweithredu ar fonitro a gorfodi

cyfraith yr amgylchedd a'r hinsawdd mewn perthynas â pheidio â dirywio'r sefyllfa.

Anghydfodau (Erthygl 396)

Mae gan y DU a'r UE opsiynau cyfyngedig i ddatrys anghydfodau mewn perthynas â darpariaethau'r sefyllfa gydradd ar safonau'r amgylchedd a'r hinsawdd.

Nid yw gweithdrefn datrys anghydfodau cyffredinol y Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn gymwys.

Yn hytrach, mae'r Cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol eu bod yn "gwneud pob ymdrech" trwy ddeialog, ymgynghori, cyfnewid gwybodaeth a chydweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw anghytundebau.

Gellir defnyddio rhai rhannau o bennod y sefyllfa gydradd ar drefniadau llywodraethu, a esbonnir yn adran 8 **ein canllaw ar y sefyllfa gydradd.**

Mesurau ail-gydbwysu (Erthygl 411)

Nawr bod y cyfnod pontio wedi dod i ben, gall reoleiddio a gosod safonau gwahanol. Mae'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu yn caniatáu i safonau ddargyfeirio. Fodd bynnag, lle bo dargyfeiriad yn cael "effaith sylweddol" ar fasnach neu fuddsoddiad rhwng y DU a'r UE, gall y naill barti neu'r llall osod mesurau ail-gydbwysu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd.

Gall mesurau ail-gydbwysu gynnwys cyflwyno tariffau ar nwyddau (sydd fel arall yn cael eu dileu o dan delerau masnachu'r Cytundeb) neu roi stop ar rannau o'r Cytundeb dros dro.

Gellir gosod mesurau hefyd ar draws gwahanol rannau o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu, fel y gall dargyfeiriad mewn un maes arwain at fesurau ail-gydbwysu mewn maes arall. Mae'r Cytundeb yn nodi gweithdrefn benodol i'w dilyn wrth osod mesurau ail-gydbwysu, sydd i'w gweld yn Erthygl 411.

Nid yw mesurau ail-gydbwysu yn gymwys i bob rhan o'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu. Gellir gosod mesurau o'r fath mewn perthynas â:

- safonau cymdeithasol a llafur;
- safonau amgylcheddol a safonau'r hinsawdd; neu
- rheoli cymorthdaliadau

Masnach a datblygu cynaliadwy

Caiff y sefyllfa gydradd, a ddisgrifir uchod, ei hategu gan ymrwymiad i weithredu mewn “modd sy’n ffafriol i egwyddor datblygu cynaliadwy.”

I’r perwyl hwn, mae’r Cytundeb yn cynnwys nifer o adrannau sy’n canolbwyntio ar fasnach a meysydd amgylcheddol penodol sy’n gosod sawl dyletswydd ar y DU a’r UE yn ymwneud â:

- Masnach a newid hinsawdd (Erthygl 401);
- Masnach ac amrywiaeth fiolegol (Erthygl 402);
- Masnach a choedwigoedd (Erthygl 403);
- Masnach a rheolaeth gynaliadwy mewn perthynas ag adnoddau biolegol morol a dyframaethu (Erthygl 404);
- Masnach a buddsoddiad o blaid egwyddor datblygu cynaliadwy (Erthygl 405); a
- Masnach a rheoli cadwyni cyflenwi cyfrifol (Erthygl 406).

I roi enghraifft o un adran y canolbwyntir arni, mae'r darpariaethau masnach a newid hinsawdd wedi'u crynhoi isod:

Masnach a newid hinsawdd (Erthygl 401)

Yn Erthygl 401, mae'r DU a'r UE yn cydnabod mor bwysig yw cymryd camau brys i frwydro yn erbyn newid hinsawdd a'i effeithiau, a rôl masnach a buddsoddi wrth geisio gwireddu'r amcan hwnnw.

Maent yn cytuno bod hyn yn unol â chyfraith a safonau rhyngwladol. Rhestrir Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd, pwrpas a nodau Cytundeb Paris a 'chytundebau amgylcheddol amlochrog ac offerynnau amlochrog eraill' ym maes newid hinsawdd.

Yng ngoleuni hyn, mae'r DU a'r UE yn cytuno bod yn rhaid iddynt:

1. gweithredu Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd a Chytundeb Paris yn effeithiol;
2. hyrwyddo bod polisiau a mesurau masnach a'r hinsawdd yr un mor gefnogol â'i gilydd;
3. hwyluso'r gwaith o waredu rhwystrau i fasnach a buddsoddi mewn nwyddau a gwasanaethau yn arbennig wrth liniaru ac addasu i newid hinsawdd. Rhestrir enghreifftiau yma, megis trwy ynni adnewyddadwy, cynhyrchion ynni-effeithlon a gwasanaethau. Awgrymir hefyd ffyrdd o gyflawni hyn, er enghraifft trwy fynd i'r afael â rhwystrau tariffau a rhwystrau eraill heb dariffau arnynt neu drwy ddefnyddio'r atebion gorau sydd ar gael; a
4. cydweithio i gryfhau eu cydweithrediad ar agweddau sy'n ymwneud â masnach ar bolisiau a mesurau newid hinsawdd yn ddwyochrog, yn rhanbarthol ac mewn fforymau rhyngwladol. Darperir manylion pellach yn egluro bod hyn yn cynnwys yng Nghonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd, Sefydliad Masnach y Byd, Protocol Montreal, y Sefydliad Morwrol Rhyngwladol (IMO) a'r Sefydliad Hedfan Sifil Rhyngwladol (ICAO). Rhestrir y meysydd cydweithredu a awgrymir fel a ganlyn ond **nid yw'r rhain yn orfodol:**
 - sicrhau deialog polisi a chydweithrediad ynghylch gweithredu Cytundeb Paris, megis dulliau o hybu gwydnwch hinsawdd, ynni adnewyddadwy, technolegau carbon isel, effeithlonrwydd ynni, trafndiaeth gynaliadwy, datblygu seilwaith cynaliadwy sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd, monitro allyriadau, marchnadoedd carbon rhyngwladol;

- cefnogi'r gwaith o ddatblygu a mabwysiadu yn uchelgeisiol ac yn effeithiol fesurau lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr gan y Sefydliad Morwrol Rhyngwladol a'r Sefydliad Hedfan Sifil Rhyngwladol i'w gweithredu gan longau sy'n ymwneud â masnach ryngwladol; a
- cefnogi trefniant uchelgeisiol i ddod â sylweddau sy'n llygru'r osôn i ben yn raddol a lleihau hydrofflorocarbonau yn raddol o dan Brothocol Montreal trwy fesurau i reoli eu cynhyrchiad, eu defnydd a'u masnach; cyflwyno dewisiadau amgen sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd; diweddarau safonau diogelwch a safonau perthnasol eraill yn ogystal â thrwy frwydro yn erbyn masnachu anghyfreithlon mewn sylweddau a reoleiddir gan Brothocol Montreal.